------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Tachwedd 2020

Amser: 14.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@senedd.cymru


**Ar 16 Tachwedd 2020, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 17.42.**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

## 2 Galluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru - sesiwn friffio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

(14.30-15.10) (Tudalennau 1 - 12)

Andrew Hewitt, yr Is-adran Drethi: Strategaeth Polisi ac Ymgysylltu, Trysorlys Cymru

Laura Fox, yr Is-adran Drethi: Strategaeth Polisi ac Ymgysylltu, Trysorlys Cymru

Lynsey Edwards, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

**Papurau ategol:**

FIN(5)-23-20 P1 - Sleidiau cyflwyno

## 3 Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid: Y Pumed Senedd

(15.10-15.25) (Tudalennau 13 - 18)

**Papurau ategol:**

FIN(5)-23-20 P2 - Papur cwmpasu ar yr ymchwiliad etifeddiaeth

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22: Trafod ymateb y Comisiwn

(15.25-15.40) (Tudalennau 19 - 43)

**Papurau ategol:**

FIN(5)-23-20 P3 - Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Cyllid - 4 Tachwedd 2020

FIN(5)-23-20 P4 - Llythyr gan Suzy Davies, Comisiynydd - ynghylch goblygiadau ariannol pandemig COVID-19 - 4 Tachwedd 2020

FIN(5)-23-20 P5 - Comisiwn y Senedd: Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol - Adolygiad o'r Gweithlu - 30 Medi 2020

## 5 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol - Papur ymgysylltu â dinasyddion

(15.40-15.55) (Tudalennau 44 - 59)

**Papurau ategol:**

FIN(5)-23-20 P6 - Papur ymgysylltu â dinasyddion

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Tachwedd 2020

Annwyl Llyr

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor, **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-2022**, a gyhoeddwyd ar 21 Hydref 2020. Mae ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid i'w weld yn **Atodiad 1**.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn yr wythnos nesaf.

Rwyf hefyd yn croesawu casgliad y Pwyllgor. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd ddidwyll, dryloyw a chlir, felly os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

**Atodiad 1**

**Argymhellion y Pwyllgor Cyllid**

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu am y costau a'r arbedion a nodwyd o ganlyniad i COVID-19, am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad terfynol am y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Derbyniwyd.

Mae diweddariad ar oblygiadau ariannol COVID-19 fel ar 30 Medi 2020 ynghlwm wrth y llythyr hwn. Byddwn yn darparu diweddariad terfynol ar gyfer 2020-21 yn dilyn yr archwiliad allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn mynd i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror 2021 er mwyn trafod sut mae prosiectau hirdymor wedi cael eu blaenoriaethu a'u cynllunio, gan gynnwys a fydd y cynllun cynaliadwyedd a'r targedau newydd sydd i fod ar waith o 2021 ymlaen yn cael eu gweithredu a sut y bwriedir iddynt ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a chyllid.

Derbyniwyd.

Rydym yn croesawu'r cyfle i rannu ein blaenoriaethau tymor hir a'n cynlluniau a'n targedau cynaliadwyedd â'r Pwyllgor.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol i'r Pwyllgor Cyllid yn y Chweched Senedd ac ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn galluogi'r Comisiwn i ddangos gwerth am arian y cynllun hwn.

Derbyniwyd mewn egwyddor.

Mae adroddiad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r manteision a sicrhawyd i'r gweithlu yn sgil y Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae pob swydd, ar wahân i un, wedi cael ei hailsefydlu/ailddosbarthu yn y 18 mis ers cynllun 2018-19.

Mae'r adroddiad yn dangos bod manteision e.e. o newidiadau i strwythurau meysydd gwasanaeth ac o sgiliau newydd a gyflwynwyd ers y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, eisoes wedi'u 'gwireddu'. Bydd unrhyw fanteision yn y dyfodol yn deillio'n llwyr o arbedion ariannol yn sgil recriwtio staff ar bwyntiau is yn y strwythur cyflogau. Bydd y fantais flynyddol hon yn lleihau dros amser wrth i staff symud ymlaen ar hyd eu band cyflog.

Felly, nid yw'r Comisiwn yn bwriadu ailedrych ar ganlyniadau cynllun 2018-19 hwn gan fod adroddiad mis Hydref 2020 yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r canlyniadau a'r manteision cyffredinol.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell, os oes angen llunio cyllideb atodol i adlewyrchu'r cronni gwyliau blynyddol, y dylid cynnwys asesiad o unrhyw gostau ychwanegol, ochr yn ochr â diweddariad ar lefelau'r absenoldebau oherwydd salwch ac effaith y pandemig ar les staff.**

Derbyniwyd.

Byddwn yn darparu copi o'r Memorandwm Esboniadol ar y Gyllideb Atodol i'r Pwyllgor, fel yn y gorffennol, cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd a'i ymgorffori yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

Ar yr un pryd, byddwn yn darparu sylwebaeth i'r Pwyllgor yn asesu a oes unrhyw risg o orfod dwyn costau ychwanegol ymlaen i 2021-22, ochr yn ochr â diweddariad ar lefelau salwch ac effaith y pandemig ar les staff.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cynllun cyfathrebu'r Comisiwn yn egluro'n glir sut y caiff blaenoriaethau eu pennu, eu mesur a'u cyflawni, a sut mae'r cynllun yn ceisio codi proffil y gwaith a wneir mewn Pwyllgorau ac yn y Senedd.**

Derbyniwyd.

Mae'r Comisiwn wedi cefnogi strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu newydd sy'n canolbwyntio ar waith y pwyllgorau. Pryd bynnag y bydd pwyllgor yn lansio ymchwiliad i faes polisi neu wasanaeth, bydd y timau Ymgysylltu â Dinasyddion yn gweithio gyda nhw i ddod o hyd i bobl sydd â phrofiad personol o'r gwasanaethau hynny.

Drwy ddefnyddio'r dystiolaeth honno gan bobl sydd â phrofiad personol o wasanaethau, ein nod yw dangos sut y mae gwaith y pwyllgorau yn berthnasol i fywydau dinasyddion bob dydd. Mae rhagor o wybodaeth yn yr amlinelliad o'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn **Atodiad 2.**

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi sylw arbennig i sicrhau bod ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u hallgau'n ddigidol, yn anodd eu cyrraedd, neu sy'n annhebygol o ymgysylltu â'r Senedd, yn brif flaenoriaeth yn ei gynllun cyfathrebu.**

Derbyniwyd.

Rydym wedi bod yn datblygu ein gweithgareddau ymgysylltu rhithwir wrth iddi fynd yn anoddach inni gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ystod y cyfyngiadau cyfredol. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym wedi sicrhau hefyd nad ydym yn anwybyddu'r rheini sydd wedi'u hallgau'n ddigidol. Mae ein gwaith grŵp ffocws ar-lein yn cynnwys sesiynau ffôn i'r rheini nad oes ganddynt gysylltiadau band eang diogel, neu y byddai'n well ganddynt beidio â chymryd rhan mewn lleoliad rhithwir. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod manteision gwirioneddol o wneud hyn, gan ei bod hi'n haws i bobl neilltuo amser i gymryd rhan, ac nid oes angen iddynt deithio. Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o

ddigwyddiadau rhithwir ym mis Tachwedd, ac yn ystyried safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch sut y dylem weithredu yn sgil y pandemig. Mae'r rhain yn ddyddiau cynnar, a byddwn yn casglu tystiolaeth dros yr wythnosau nesaf i fesur llwyddiant y gweithgareddau hyn.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r adroddiad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol gynnwys manylion ychwanegol ynghylch sut y mae ailstrwythuro'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun.**

Derbyniwyd.

Mae adroddiad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ynghlwm wrth y llythyr hwn ac mae'n cynnwys rhagor o fanylion am y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu manylion ychwanegol i egluro'r adnoddau sydd gan y Comisiwn ar hyn o bryd i gefnogi'r Senedd yng nghyfnod pontio'r UE, yr adnoddau arbenigol ychwanegol y cyfeirir atynt mewn tystiolaeth, a sut y bydd yr adnoddau hyn yn cael eu cyrchu.**

Derbyniwyd.

Dyma'r adnoddau y mae'r Comisiwn wedi'u darparu i gefnogi'r Senedd yng nghyfnod pontio'r UE:

- Cydlynu Cyfnod Pontio'r UE – lwfans cyfrifoldeb ychwanegol ar gyfer aelod o staff y Comisiwn sy'n ymgymryd â dyletswyddau Cydlynu Cyfnod Pontio'r UE, yn ychwanegol at ei rôl bresennol (a gymeradwywyd ar hyn o bryd hyd at 31 Rhagfyr 2020). Bydd Cydlynydd Cyfnod Pontio'r UE yn goruchwylio'r ffrydiau gwaith sydd ar y gweill ar draws Comisiwn y Senedd yng nghyswllt ymadael â'r UE, gan sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd, a bod bylchau/oedi yn cael eu nodi.

- Fframwaith Ymchwil Academaidd Brexit – mae hyn yn caniatáu i'r Senedd gaffael gwybodaeth arbenigol ar fyr rybudd gan gronfa o academyddion ac arbenigwyr yn ôl yr angen. Mae'r arbenigedd hwn yn ategu gwaith Ymchwil y Senedd ar bynciau arbenigol iawn. Hyd yma, comisiynwyd 25 o ddarnau a chyfanswm o 80 o ddiwrnodau o waith, ar faterion yn cynnwys: disodli System Masnachu Allyriadau'r UE; senarios y dyfodol ar ôl Brexit; cytundeb y DU â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac EFTA a materion i Gymru sy'n gysylltiedig â'r cytundeb rhwng y DU a Japan. Y gronfa i gefnogi'r Fframwaith yn ystod 2020-21 a 2021-22 yw £20,000 y flwyddyn ac mae rhywfaint o botensial i drosglwyddo arian o gyfanswm y gronfa ymgysylltu academaidd, sef £40,000, yng nghyllideb ddrafft 2021-22 os oes angen.

- Busnes fel arfer – mae staff eraill yn y Comisiwn hefyd yn ymgymryd â gweithgarwch i gefnogi'r Senedd yn ystod cyfnod pontio'r UE fel rhan o'u gwaith arferol. Caiff y rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn ei gyflawni gan y timau clercio sy'n cefnogi'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, tîm ymchwil Materion Allanol a Chyfansoddiadol y Senedd, y Gwasanaethau Cyfreithiol, a rhannau eraill o'r Comisiwn, fel y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a'r tîm Cyfathrebu. Defnyddir y cyllidebau dysgu a datblygu presennol hefyd i ddarparu hyfforddiant arbennig ac arbenigol i staff sy'n gweithio yn y meysydd hyn.

**Atodiad 2 - AMLINELLIAD O’R STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU**

**Diben a chrynodeb**

1. Mae strategaeth y Comisiwn gyfer 2016-21 yn gosod y nod strategol o “ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo’r Senedd” yn ogystal â “chyfathrebu gwaith y Comisiwn yn allanol”

2. Ers imi ddechrau’r swydd hon ym mis Medi 2019, rwyf wedi bod yn gweithio ar strategaeth i wella sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl Cymru, yn unol â nodau strategol y Comisiwn. Er mwyn gwneud hynny, mae rhai newidiadau yn cael eu gwneud i strwythur y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

3. Mae’r papur hwn yn amlinellu’r modd y bydd y newidiadau hynny’n effeithio ar waith y Senedd, a sut y bydd yn newid gwaith y Comisiwn. Bydd yn golygu llawer mwy o ffocws ar gyfryngau cymdeithasol fel modd o siarad â'r cyhoedd, a’u cynnwys yn ein gwaith.

**Cefndir**

4. Fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu cyntaf Comisiwn y Senedd, cefais y dasg o sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcan strategol i Ymgysylltu â Phobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd. Mae llawer o'r gwaith rydym yn ei wneud eisoes yn cael effaith tuag at hyn, ond rwyf am inni ganolbwyntio'n fwy didostur ar ddweud wrth bobl Cymru beth sy'n digwydd yma, a'u cynnwys yn ein gwaith.

5. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Comisiwn wedi cael tri adroddiad yn canolbwyntio ar ymgysylltu. Mae pob un ohonynt yn amlinellu heriau tebyg ar gyfer ein strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu; sef y dylai'r cyfryngau cymdeithasol fod wrth wraidd strategaeth gyfathrebu'r Senedd ac y dylai dinasyddion fod wrth wraidd popeth a wnawn.

6. Mae hyd a lled y dasg sy’n ein hwynebu wedi'i amlygu’n bennaf gan Archwiliad Ymgysylltu Gwleidyddol Cymdeithas Hansard 2018, sy'n dangos mai dinasyddion yng Nghymru sydd â'r sgôr isaf yn y DU o ran "diddordeb mewn gwleidyddiaeth", "gwybodaeth am wleidyddiaeth", ac o ran eu cred bod "cymryd rhan yn effeithiol".

7. Mae’n dra hysbys bod byd y cyfryngau yng Nghymru’n gymharol wan, ond nid yw’r sefyllfa hon yn un na ellir ei hunioni. Drwy ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol mewn modd sydd wedi’i dargedu, gallwn adrodd hanes yr hyn a wna’r Senedd mewn modd sy’n estyn allan i ddinasyddion ac yn ymgysylltu â hwy. Ym mhob sefydliad newyddion a chyfryngau sydd â phresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol, y ffactor allweddol o ran ennyn diddordeb cynulleidfaoedd yw cael astudiaethau achos cryf a gafaelgar fel rhan o'u hadroddiadau. Mae astudiaethau o’r fath yn ffordd i'r cyhoedd ymddiddori mewn stori ac ymgysylltu ag erthygl.

**Y Strategaeth**

**8.** Mae pedwar peth yn llywio'r strategaeth:

- **a.** Rhaid gosod y dinesydd wrth wraidd pob agwedd ar waith y Senedd.
- **b.** Rhaid gosod cyfathrebiadau digidol wrth wraidd gweithrediadau'r Senedd fel ffordd o hwyluso a democrateiddio'r broses ymgysylltu.
- **c.** Rhaid i gyfathrebu fod yn symlach ac yn gyson – negeseuon brand syml, gafaelgar wedi'u targedu at grwpiau demograffig penodol.
- **d.** Gweithrediad a diwylliant 'Digidol yn Gyntaf'; a gwella cymhwysedd digidol, setiau sgiliau a dulliau cyflwyno yn barhaus.

*Rhaid gosod y dinesydd wrth wraidd pob agwedd ar waith y Senedd.*

**9.** Ddwy flynedd yn ôl, dywedodd Leighton Andrews yn ei adroddiad y dylai'r Senedd ystyried ei hun yn gynhyrchydd cynnwys. *"Y nod ddylai fod rhoi pobl - yn hytrach na'r sefydliad a'i brosesau - wrth wraidd straeon newyddion amserol ac anelu at wneud cysylltiad emosiynol."* Mae hyn yn sail i'r strategaeth newydd.

**10. Mae angen inni oresgyn yr heriau a ddaw yn sgil seilwaith cyfryngau cyfyngedig Cymru, newidiadau cyflym i'r ffordd y mae pobl yn cael newyddion ac yn ei rhannu, a lefelau isel o ddealltwriaeth o sefyllfa gyfansoddiadol newidiol a chymharol newydd (o hyd). Gellir cyflawni hynny drwy wella ein hallbwn ar y cyfryngau cymdeithasol, a chanolbwyntio ar hynny i raddau helaeth.**

**11.** Drwy waith y tîm ymgysylltu, mae ymchwiliadau gan y pwyllgorau yn aml yn casglu tystiolaeth drwy ymweld â phob rhan o Gymru er mwyn clywed profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau penodol. Mae hyn yn aml yn cynnwys astudiaethau achos "bywyd go iawn" grymus ynghylch sut y mae gwasanaethau wedi helpu eu bywydau, neu wedi cael effaith negyddol ar eu bywydau.

**12.** Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hystyried fel rhan o drafodaethau'r pwyllgor dan sylw, ac yn cael ei chynnwys yn adroddiad y pwyllgor sy'n cael ei gyhoeddi rai wythnosau'n ddiweddarach. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn unrhyw ffordd arall. Mae angen i hyn newid.

**13. Byddwn yn defnyddio'r sesiynau casglu tystiolaeth hyn fel ffordd o ddangos yr hyn y mae'r Senedd yn ei wneud i graffu ar rôl Llywodraeth Cymru a gweithredu fel llais i'r cyhoedd.**

14. **Ar ôl ffilmio cyfweliadau gyda'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth, byddwn yn rhannu eu straeon ar ein ffrydiau cyfryngau cymdeithasol cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Caiff y clip ei olygu a bydd erthygl i gyd-fynd ag ef y gellir ei dargedu i wahanol feysydd ac at wahanol ddemograffeg.**

15. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau defnyddio offeryn ymgysylltu ar-lein newydd sy'n ei gwneud hi'n llawer haws i'r cyhoedd gyfrannu at ymchwiliadau gan bwyllgorau. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn ein herthyglau er mwyn sicrhau y bydd unrhyw un sydd â diddordeb yn ein hastudiaethau achos yn cael eu cyfeirio at y wefan, ac yn gallu rhoi eu barn.

16. **Byddwn yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i ddinasyddion gymryd rhan yng ngwaith y Senedd**

*Rhaid gosod cyfathrebiadau digidol wrth wraidd gweithrediadau'r Senedd fel ffordd o hwyluso a democrateiddio'r broses ymgysylltu.*

17. Ar hyn o bryd, mae'r tîm Cyfathrebu wrthi'n gweithio ar strategaeth cyfryngau cymdeithasol ar gyfer pob sianel (Facebook, Twitter, Instagram, ac ati) er mwyn sicrhau ein bod yn gallu teilwra ein hallbwn ar gyfer y gwahanol ddemograffeg, a hynny gan ddefnyddio gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

18. Mae sgyrsiau gyda nifer o Aelodau'r Senedd wedi datgelu awydd gwirioneddol i gynyddu eu proffiliau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o Aelodau'n gwneud defnydd da o lwyfannau fel Facebook i ymgysylltu a chyfathrebu â phleidleiswyr. **Wrth inni edrych ymlaen at y gefnogaeth barhaus y byddwn yn ei chynnig i Aelodau yn y dyfodol, byddwn yn ystyried sut y gellid cynnig mwy o hyfforddiant fel bod y cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan fwy canolog yn y modd y mae Aelodau'r Senedd yn rhyngweithio â'r etholwyr.**

19. **Gan adeiladu ar y gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth Senedd TV yn cael ei ddefnyddio'n fwy eang fel offeryn cyfathrebu digidol, gan gynnwys darlledu digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y Senedd.**

*Rhaid i gyfathrebu fod yn symlach ac yn gyson - negeseuon brand syml, gafaelgar wedi'u targedu at grwpiau demograffig penodol*

20. **Byddwn yn datblygu "brand" clir ar gyfer y Senedd**, yn seiliedig ar y syniad o gynrychioli "eich llais chi"; man lle mae'r pryderon a'r materion sy'n bwysig i'r cyhoedd yn cael eu codi a'u trafod.
21. Bydd hyn yn ein helpu i greu cysylltiad â'r cyhoedd, a meithrin perthynas o ymddiriedaeth.

22. **Byddwn yn datblygu tôn llais sy'n fwy cynnes a chyfeillgar ar gyfer ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan**, a hynny gan barchu pwysigrwydd ein gwaith deddfu a chraffu. Byddwn yn glir a chryno, ac yn osgoi'r defnydd o jargon.

23. **Drwy gynnal ymchwil newydd i’r farchnad, byddwn yn gallu adeiladu set newydd o gynulleidfaoedd targed, a fydd yn sail i'n strategaeth negeseuon craidd.**

24. Nid yw'r Senedd wedi comisiynu na cheisio safbwynt cynulleidfa ers tro, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i ni adnabod ein cynulleidfaoedd yn hyderus, a thargedu ein negeseuon fel sy’n briodol. Mae’r dirwedd ddigidol a’r cyfryngau, ynghyd ag arferion ac agweddau defnyddwyr, yn newid yn gyflym. Felly, byddwn yn gweithio gyda darparwr allanol ag enw da i geisio safbwynt cynulleidfaoedd cyfredol.

25. Mae'r strategaeth gyfathrebu gyfredol (2016-20) wedi nodi 4 cynulleidfa:

**"Gweithwyr gwleidyddol proffesiynol":** fe'u cyflogir i gymryd rhan yn y system ddemocrataidd. Gall y grŵp gynnwys cynrychiolwyr etholedig, newyddiadurwyr gwleidyddol, swyddogion yn y sector cyhoeddus a hefyd gweithwyr proffesiynol ym maes materion cyhoeddus neu bolisi sy'n cael eu cyflogi i hyrwyddo amcanion gwleidyddol eu cleientiaid neu eu sefydliadau.

**"Gweithredwyr gwleidyddol":** maent yn llawn cymhelliant yn gymdeithasol i gymryd rhan yn y broses wleidyddol, ac maent yn elfen hanfodol o drwch ein cwsmeriaid. Maent yn wybodus ac yn hyddysg, ac yn awchu am wybodaeth a chyfleoedd i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd, a dylanwadu arno. Nid yw'r grŵp hwn wedi'i gyflogi i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ond yn hytrach mae'n cynnwys, yn y lle cyntaf, y rheiny sy'n cymryd rhan mewn gweithrediadau gwleidyddol neu gymdeithasol. Awgryma data presennol bod y gyfran o'r boblogaeth sy'n rhannu nodweddion y grŵp hwn yn llawer llai yng Nghymru (4%)[1] o'i chymharu â'r gyfran yn rhannau eraill o'r DU (20% yn yr Alban) a chyfartaleddau y DU (32%)[2].

**"Arsylwyr gwleidyddol":** mae'r grŵp hwn yn tueddu i gael gafael ar newyddion a gwybodaeth wleidyddol yn wythnosol, ac yn anaml–neu weithiau'n unig–y maent yn siarad am wleidyddiaeth gyda'u ffrindiau, eu teuluoedd neu eu cydweithwyr. Efallai bod ganddynt rywfaint o ddiddordeb mewn materion gwleidyddol penodol, ond maent yn tueddu i beidio â chymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol mwy ffurfiol ar lefel uchel, fel cysylltu â'u cynrychiolydd etholedig neu fynd i gyfarfodydd neu ralïau.

**"Pobl "wleidyddol ddifater":** ystyrir y grŵp hwn fel un ag ychydig neu ddim diddordeb mewn materion gwleidyddol. Maent yn datgan lefelau isel o ddiddordeb mewn newyddion gwleidyddol, ac ni fyddant byth yn trafod gwleidyddiaeth gyda ffrindiau, perthnasau neu gydweithwyr.

26. **Bydd y strategaeth newydd yn canolbwyntio ar yr "arsylwyr gwleidyddol" a'r "bobl wleidyddol ddifater", sy'n debygol o gynnwys mwyafrif y pleidleiswyr.**

27. Er mwyn targedu'r cynulleidfaoedd hynny yn y modd mwyaf effeithlon a llwyddiannus, bydd angen i ni ddeall eu safbwynt ynghylch y Senedd.

**28.** Mae 18 mis prysur i ddod, a bydd gofyn am gyflawni ymgyrchoedd o bwys, e.e. newid enw, pleidlais i bobl 16 oed ac etholiad cyffredinol Cymru yn 2021. Felly, bydd angen i'n dulliau cyfathrebu fod mor effeithiol â phosibl. **Byddwn yn seilio ein hymdrechion ar dystiolaeth trwy ddata cadarn a safbwyntiau cyfredol.**

**29.** Byddai'r prosiect hwn yn bwydo'n uniongyrchol i nod y Comisiwn, sef *ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Senedd.* **Byddwn yn adeiladu proffil y Senedd**, ei gwaith a'i hesblygiad i fod yn senedd cyn etholiad cyffredinol Cymru 2021.

**30.** Bydd yr ymchwil hefyd yn cefnogi'r gwaith sydd ynghlwm wrth ddatblygu'r wefan newydd a'n hymdrechion ym maes y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnig safbwyntiau ychwanegol i ni er mwyn datblygu dulliau newydd o greu cynnwys, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.

*Gweithrediad a diwylliant 'Digidol yn Gyntaf'; a gwella cymhwysedd digidol, setiau sgiliau a dulliau cyflwyno yn barhaus.*

**31. Er mwyn rhoi'r holl newidiadau hyn ar waith, byddwn yn creu tîm newydd o fewn y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu a fydd yn canolbwyntio'n llwyr ar wella ein strategaeth o ran y cyfryngau cymdeithasol.**

**32.** Bydd hyn yn arwain at greu rolau newydd gan gynnwys Pennaeth y Cyfryngau Cymdeithasol, a Rheolwr y Cyfryngau Cymdeithasol. Byddant yn cydweithio'n agos â'r Tîm Ymgysylltu, yn ogystal â'r Tîm Newyddion, er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r dystiolaeth a gesglir gan Bwyllgorau'r Senedd i hysbysu a chynnwys y cyhoedd, ac ymgysylltu â nhw.

**33.** Bydd y tîm nid yn unig yn cymryd yr awenau o ran ein hallbwn ar gyfryngau cymdeithasol, ond hefyd yn sicrhau y bydd timau eraill ar draws y sefydliad yn cynyddu eu ffocws ar y cyfryngau cymdeithasol fel modd o ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd.

**34.** Gallai'r tîm hefyd gael ei gefnogi gan aelod o'r gwasanaeth cyfieithu er mwyn sicrhau y gellir cyhoeddi ein holl allbwn yn ddwyieithog cyn gynted â phosibl.

**35.** Yn sgil pandemig y coronafeirws, mae cynnal gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn amhosibl. Ar yr un pryd, mae'r pandemig wedi caniatáu inni wella ein darpariaethau rhithwir. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod buddion gwirioneddol yn deillio o'r sefyllfa hon, gan ei bod yn ei gwneud hi'n haws i bobl neilltuo amser i gymryd rhan, ac yn dileu'r angen iddynt deithio.

**36.** Mae'r tîm Ymgysylltu wedi ailgyfeirio staff ac adnoddau tuag at y gwaith o wella ein gwasanaethau digidol, fel cynnal teithiau rhithwir a gwneud gwaith ymgysylltu ag ysgolion. Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau rhithwir ym mis Tachwedd, ac yn ystyried safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch sut y dylem weithredu yn sgil y pandemig. Mae'r rhain yn ddyddiau cynnar, a byddwn yn casglu tystiolaeth dros yr wythnosau nesaf i fesur llwyddiant y gweithgareddau hyn.

**37.** Wrth ddatblygu a gwella ein hadnoddau rhithwir, rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i beidio â diystyru'r rhai sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol. Wrth i ni baratoi gwaith grŵp ffocws ar gyfer y Pwyllgorau, yn ogystal â'n gwaith ymchwil ein hunain, rydym wedi cynnal sesiynau dros y ffôn a sesiynau ar-lein fel y gallwn glywed gan gynifer o ddinasyddion â phosibl.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Tachwedd 2020

Annwyl Llyr

**Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19 – y wybodaeth ddiweddaraf fel ar 30 Medi 2020.**
Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar ar 5 Hydref 2020, pan wnaethom gadarnhau ein bod yn llunio llythyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am oblygiadau ariannol pandemig COVID-19 fel ar 30 Medi 2020.

Mae'r llythyr hwn yn dilyn ein llythyr blaenorol, dyddiedig 7 Gorffennaf 2020 yn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Mehefin 2020, a'r trafodaethau rydych chi wedi'u cael ynghylch effaith COVID-19 ar gyrff a gyllidir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, gan fanylu ar y materion a ganlyn:

- effaith COVID-19 ar gyllid eleni, gan gynnwys unrhyw arbedion a chostau ychwanegol, sydd wedi'u nodi mewn dadansoddiad llawn; a
- gwybodaeth am yr effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn ar gyfer ei weithgareddau ei hun ac ar gyfer cyllido Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Rwyf wedi cynnwys y wybodaeth hon yn yr atodiad i'r llythyr.

Rwy'n gobeithio ei fod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Yn ôl yr arfer, rhowch wybod i mi os oes unrhyw wybodaeth arall yr hoffai'r Pwyllgor ei chael.

Yn gywir

Suzy Davies

Copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi a Nia Morgan**Atodiad 1**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

**Yr effaith ar y gronfa prosiectau**

Nododd Cyllideb 2020-21 wariant o £1.515 miliwn i'w gyllido o gronfa prosiectau'r Comisiwn. Mae'r rhagolwg gweithredol presennol yn dangos gwariant o £1.647 miliwn, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn. Yn ôl yr arfer, caiff cynigion eu haddasu i reoli'r meysydd lle mae'r gwariant posibl yn uwch neu'n is nag yr amcangyfrifwyd.

**Tabl 1 – Yr effaith ar y gronfa prosiectau**

| | Cyllideb | 30-Mehefin-20 | 30-Medi-20 |
|---|---|---|---|
| **Y gronfa brosiectau ar gyfer 2020-21** | **Swm £'000** | **Swm £'000** | **Swm £'000** |
| Meddalwedd 'Legislative Workbench' | £600 | £600 | **£514** |
| Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) Comisiwn y Cynulliad – y newid enw | £45 | £45 | **£45** |
| Archifo | £65 | £65 | - |
| System y Cyfarfod Llawn | £50 | £50 | £11 |
| Y wefan | £80 | £80 | £80 |
| Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth | £250 | £200 | £51 |
| Newid ffenestri – adolygiad dichonoldeb | £50 | £50 | £45 |
| Drysau tân newydd | £80 | £80 | **£80** |
| Diogelwch corfforol – oedi - Senedd | £225 | £233 | £233 |
| Diogelwch corfforol – oedi – Tŷ Hywel | £70 | £270 | £270 |
| Gosod drysau tân | | £92 | £92 |
| Y dechnoleg ar gyfer Cyfarfodydd Llawn hybrid | | £30 | £56 |
| Gwaith ar system awyru'r Pierhead | | | £30 |
| Benthyca offer TGCh i Aelodau | | | £40 |
| Diogelwch y rhwydwaith | | | £100 |
| **Cyfanswm** | **£1,515** | **£1,795** | **£1,647** |

I grynhoi, dyma'r prif feysydd y disgwylir i COVID-19 effeithio arnynt:

- Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth – gostyngiad o £199,000
- Diogelwch corfforol (oedi) – cynnydd o £208,000, gyda gwariant yn cael ei ddwyn ymlaen o 2021-22
- Oedi gwaith ar gyfer 2019-20 (gosod drysau tân/system awyru) – cynnydd o £122,000 yn 2021-22
- Gofynion ychwanegol ar gyfer y Cyfarfod Llawn o ran COVID-19 – cynnydd o £56,000
- Buddsoddiad ychwanegol mewn TGCh ac yn niogelwch y rhwydwaith - £40,000 a £100,000

Mae hyn yn gynnydd cyffredinol o £132,000.

Ffigurau dros dro yw'r rhain ar hyn o bryd, ac maent yn debygol o newid wrth i'r flwyddyn ariannol fynd yn ei blaen ac i ragor o ofynion ac arbedion gael eu nodi.
Mae'r Comisiwn yn parhau i adolygu rhagolygon cronfa'r prosiect yn rheolaidd i nodi blaenoriaethau sy'n newid ac i addasu yn unol â hynny.

Arweiniodd y canfyddiad cynnar hwn o danwariant yn ymwneud â gweithgaredd ymgysylltu y Comisiwn i ystyried a ellid blaenoriaethu'r cronfeydd sydd ar gael (ar ôl talu'r costau ychwanegol) yn rhywle arall neu a ellid eu dychwelyd i'r WCF. Cytunwyd y dylid cwblhau'r gwaith o ail-fodelu diogelwch ffisegol Tŷ Hywel (y bwriadwyd ei gwblhau yn 2021-22) yn ystod blwyddyn ariannol 20-21. Byddai hyn, nid yn unig yn gwella diogelwch ffisegol yn sylweddol rhag ymosodiad, ond byddai'r sgrinio cysylltiedig yn helpu i leihau lledaeniad y feirws, gan ddiogelu'r rhai sy'n gweithio ac yn mynd drwy ardal y dderbynfa. Cytunwyd ar y prosiectau TGCh a nodwyd gan eu bod yn ymateb uniongyrchol i sefyllfa'r pandemig – gan ddarparu offer i Aelodau'r Senedd a staff allu gweithio o bell ac i gynyddu ein cadernid a'n seiberddiogelwch ar adeg pan mae gweithio rhithwir yn hanfodol i fusnes y Senedd.

Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi lleihau ychydig ar y pwysau ar gronfa brosiect 21-22, a leihawyd i £0.46 miliwn, o £1.055 miliwn, fel un o'n gweithredoedd i leihau'r cynnydd yng nghyllideb weithredol y Comisiwn. Mae defnyddio adnoddau'n ddoeth fel hyn yn parhau i fod yn un o nodau strategol y Comisiwn.

**Yr effaith ar y ddarpariaeth o ran gwyliau blynyddol**

Fel y nodwyd yn ein llythyr blaenorol, mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 – Buddion Cyflogeion yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gronni ar gyfer cost unrhyw hawliadau o ran gwyliau blynyddol nis cymerwyd ond a gronnwyd gan staff y Comisiwn fel ar 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol.

Y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2020 oedd £777,000. Mae hyn gyfwerth â chyfartaledd o 6.9 diwrnod o wyliau blynyddol a deuddydd o wyliau hyblyg ar gyfer pob aelod o staff y Comisiwn. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chyfrifo fel ar 30 Medi 2020 ac mae hi bum niwrnod yn fwy nag y byddai fel arfer erbyn y pwynt hwn yn ystod y flwyddyn. Os bydd y duedd hon yn parhau, byddai hyn yn arwain at ddarpariaeth o £424,000 yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn 2019-20. Bob blwyddyn, caiff tua £25,000 ei nodi yn y gyllideb ar gyfer y cynnydd hwn, i adlewyrchu unrhyw gynnydd mewn lefelau cyflog.

Mae gwaith bellach yn canolbwyntio ar amcangyfrif cyfanswm y ddarpariaeth y bydd ei hangen ar 31 Mawrth 2021. Fel y nodwyd yn ein sesiwn dystiolaeth ar 5 Hydref 2020, bydd staff y Comisiwn yn cronni 15 diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2021, gyda chyfleoedd cyfyngedig i gymryd y gwyliau blynyddol hyn. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar alldro'r Comisiwn. Unwaith y bydd amcangyfrif wedi'i gyfrifo, disgwylir i'r Comisiwn gyflwyno ail gyllideb atodol ar gyfer 2020-21. Ni fydd hyn yn cynyddu'r gofyniad o ran arian.

Mae hyn yn dangos bod rhai o staff y Comisiwn wedi gorfod addasu eu patrymau gwaith yn sylweddol i ymateb i ofynion y Comisiwn o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae hyn wedi golygu

nad oedd yn bosibl i staff penodol gymryd gwyliau, ac rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn er lles ein staff.

**Yr effaith ar gyllidebau meysydd gwasanaeth – gwariant cyffredinol**

Mae effaith y pandemig COVID-19 ar wariant y Comisiwn o ddydd i ddydd yn amrywio ac mae'r wybodaeth isod yn dangos, yn seiliedig ar chwe mis o ddata go iawn, lle rydym wedi gweld arbedion a gwariant ychwanegol.

**Tabl 2 – Gwariant ychwanegol gan y Comisiwn**

| **Gwariant, o fis Ebrill 2020 hyd at** | **Mehefin 2020 £** | **Medi 2020 £** |
|---|---|---|
| Ystadau a chyfleusterau – Sgriniau, arwyddion, hylif diheintio dwylo ac ati. | 17,000 | 39,000 |
| TGCh – Trwyddedau Zoom, gliniaduron, sgriniau, bysellfyrddau ac ati. | 51,000 | 78,000 |
| Diogelwch – Cyfarpar diogelwch personol | 2,000 | 3,000 |
| Lwfans gweithio gartref/Taliadau yn ôl disgresiwn | I'w gyhoeddi | 0 |
| Asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DSE) ar gyfer gweithio gartref | I'w gyhoeddi | 0 |
| Desgiau a chadeiriau ychwanegol ac ati yn dilyn asesiadau DSE gweithio gartref | I'w gyhoeddi | 9,000 |
| Gostyngiad mewn incwm arlwyo – cyfraniad ychwanegol gan y Comisiwn | I'w gyhoeddi | 105,000 |
| Gostyngiad mewn incwm o faes parcio Tŷ Hywel (wedi'i wrthbwyso gan gostau is) | I'w gyhoeddi | 6,000 |
| Gostyngiad mewn incwm o'r siop | - | 7,000 |
| | | |
| **Cyfanswm** | **70,000** | **247,000** |

Hefyd, cafodd £16,000 ei wario ar offer TGCh ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2019-20).

**Tabl 3 – Costau is neu arbedion ar gyfer cyllidebau'r gwasanaethau**

| **Arbedion ychwanegol (amcangyfrif) o fis Ebrill 2020 hyd at** | **Mehefin 2020 £** | **Medi 2020 £** |
|---|---|---|
| Costau is ar gyfer cyfleustodau | I'w gyhoeddi | 85,000 |
| Costau teithio | I'w gyhoeddi | 77,000 |
| Gwariant gan y Pwyllgorau | | 12,000 |
| Gwaith cynnal a chadw ymatebol/dodrefn | | 37,000 |
| Costau cyfieithu allanol | | 53,000 |
| Canslo digwyddiadau'r Senedd Ieuenctid a Phleideisio@16 ac ati | 13,000 | 71,000 |
| Costau argraffu, postio a chludo | | 13,000 |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** | **348,000** |

**Yr effaith ar y cyllid a roddir i'r Comisiwn i fodloni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyflogau a threuliau'r Aelodau.**

Eto, mae effaith y pandemig COVID-19 ar gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn amrywio ac mae'r wybodaeth isod yn dangos lle'r oedd angen gwariant ychwanegol yn ystod y chwe mis diwethaf.

Hefyd, nodwn y mathau o wariant lle bu arbedion. Fel y mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwybod, mae'r agwedd hon ar y gyllideb gyffredinol y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn.

| **Gwariant o fis Ebrill hyd at** | **Mehefin 2020 £** | **Medi 2020 £** |
|---|---|---|
| TGCh – Argraffwyr, gliniaduron ac ati. | 13,000 | 13,000 |
| Offer swyddfa, gosod offer a chyfarpar diogelwch personol | 2,000 | 7,000 |
| Hysbysebion a thaflenni | 5,000 | 4,000 |
| Ailgyfeirio post | 1,000 | 1,000 |
| Gwaith ymchwil | 1,000* | -* |
| Lwfans gweithio gartref | 5,000* | -* |
| **Cyfanswm** | **27,000** | **25,000** |

*Amcangyfrif. Mae'r ffigur go iawn hyd at fis Medi 2020 yn llai na £1,000.

| Gwariant ychwanegol/colledion (amcangyfrif) o fis Ebrill 2020 hyd at fis Mawrth 2021* | £ |
|---|---|
| Lwfans gweithio gartref/Taliadau yn ôl disgresiwn | I'w gyhoeddi |
| Asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DES) ar gyfer gweithio gartref | I'w gyhoeddi |
| Desgiau a chadeiriau ychwanegol ac ati yn dilyn asesiadau DSE gweithio gartref | I'w gyhoeddi |
| Ailgyfeirio post | I'w gyhoeddi |
| Sgriniau Perspex ar gyfer swyddfeydd etholaeth | I'w gyhoeddi |
| Gwasanaeth glanhau dwys ychwanegol ar gyfer swyddfeydd | I'w gyhoeddi |
| Arwyddion newydd | I'w gyhoeddi |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** |

*Dim gwariant sylweddol hyd yma – mae'r rhain yn feysydd posibl ar gyfer gwariant

| Arbedion ychwanegol o fis Ebrill 2020 hyd at fis Medi 2020 | £ |
|---|---|
| Costau teithio is | 63,000 |
| **Cyfanswm** | **63,000** |

**Dyddiad y papur:** 30 Medi 2020

**Awdur:** Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant

# Teitl: Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2019 - Adolygiad o'r Gweithlu

## Diben

Ym mis Medi 2019 gwnaeth y Pwyllgor Cyllid yr argymhelliad a ganlyn: **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adroddiad ariannol blynyddol ar fuddion tymor hir, gan gynnwys arbedion parhaus, y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor gan nodi sut mae'r cynllun wedi cyflawni'r nodau a nodwyd, yn benodol "Cyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau".**

Mae'r papur hwn, a luniwyd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid, yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad ynghylch a gyflawnodd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol bob un o'r pedair nod a nodwyd ganddo.

## Crynodeb

Ym mis Ionawr 2018, cytunodd y Comisiwn ar ganlyniadau adolygiad Capasiti. Yn yr un modd, cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar adolygiad gallu a luniwyd i ategu ei argymhellion. Cytunwyd ar y Strategaeth Pobl bum mlynedd, a oedd yn deillio o'r adolygiad capasiti a gallu, ym mis Medi 2018. Fe'i cynlluniwyd i gynyddu gallu gweithwyr trwy gyfleoedd i adolygu strwythurau, datblygu sgiliau, a ffyrdd newydd o weithio. Lansiwyd Cynllun Ymadael Gwirfoddol y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2018 ac fe'i lluniwyd i gefnogi'r Strategaeth hon trwy gyflawni'r nodau a ganlyn:

- **Caniatáu i'r sefydliad ymateb i newidiadau yn y math o sgiliau sydd eu hangen arnom;**
- **Gwella effeithlonrwydd y gweithlu;**
- **Hwyluso newid sefydliadol; a**
- **Chyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â phrinder sgiliau.**

Gadawodd cyfanswm o 24 aelod o staff y sefydliad rhwng mis Mai a mis Medi 2019. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach, mae adolygiad o'r manteision sy'n dod i'r amlwg yn dangos ei fod wedi gwneud y mwyaf o'r cyfle hwn yn gorfforaethol.

**Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2018, cytunodd Comisiwn y Cynulliad y byddai Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn cael ei gynnig i holl staff Comisiwn y Cynulliad. Roedd y Cynllun yn seiliedig ar broses ymgeisio agored, fel yn achos cynlluniau blaenorol yn 2010, 2012 a 2015. Roedd y Cynllun yn agored i holl weithwyr parhaol y Comisiwn ar bob gradd.

Cafwyd 43 o geisiadau ac fe'u hystyriwyd yn erbyn y meini prawf a luniwyd i wneud y mwyaf o'r cyfle ar gyfer enillion effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rhoddwyd caniatâd i 24 o ymgeiswyr ymadael yn wirfoddol ar y sail hon.

Cynhaliwyd archwiliad o'r broses ym mis Medi 2019 a daethpwyd i'r casgliad bod gan y Cynllun drefniadau llywodraethu priodol a chymesur a'i fod wedi cael ei reoli mewn ffordd resymol. Mae'r adolygiad hwn yn cefnogi'r archwiliad trwy adolygu pa mor effeithiol y cyflawnodd y Cynllun ei nodau.

**Buddion Corfforaethol**

**Ariannol** - Er na luniwyd y cynllun fel ymarfer arbed costau, (y nod perthnasol oedd sicrhau arbedion tymor hir lle bo hynny'n bosibl a / neu osgoi costau ychwanegol o ran mynd i'r afael â phrinder sgiliau), gwireddwyd arbedion ychwanegol mewn nifer o ffyrdd:

- Mae swyddi wedi cael eu rhyddhau naill ai'n barhaol i'w hail-leoli mewn mannau eraill yn y Comisiwn wrth i anghenion corfforaethol godi, neu dros dro gan fod gwasanaethau wedi oedi'n fwriadol i asesu effaith y Cynllun Ymadael Gwirfoddol cyn ail-lunio swyddi a strwythurau.
- Lle mae swyddi wedi cael eu disodli trwy ymarfer ailstrwythuro, mae gwasanaethau wedi defnyddio'r cyfle i ail-lunio swyddi sydd, mewn achosion o'r fath, wedi osgoi'r baich ariannol o greu swyddi newydd ychwanegol, neu mae swyddi wedi'u hailraddio i greu strwythur tîm mwy priodol, gyda'r fantais ychwanegol o arbediad ariannol.
- Yn olaf, crëwyd arbedion ychwanegol gan brosesau penodi'r Comisiwn, wrth i ddechreuwyr newydd ar un o ddau bwynt cyntaf y raddfa gymryd lle ymadawyr ar frig eu graddfa.
- 

| | Posts |
|---|---|
| Posts released | 2 |
| Posts replaced at lower grade | 5 |
| Opportunity to restructure | 7 |
| Replace like for like with new skills | 8 |
| on hold | 1 |
| Posts replaced at higher grade | 1 |
| | 24 |

- Yn gyfan gwbl, gadawodd 24 o bobl trwy'r rhaglen ac mae 23 o bobl wedi cymryd eu lle hyd yma.  Gwnaed arbediad o £72,000 ar gymhariaeth uniongyrchol.

**Trosiant** - Manteision Cynllun Ymadael Gwirfoddol dros y trosiant staff arferol yw'r gallu i gael mwy o reolaeth a chydlynu niferoedd i gael mwy o effaith. Fodd bynnag, mae'n anochel bod hyn hefyd yn creu cyfnod o ansicrwydd ac yn ddelfrydol dylai setlo cyn gynted â phosibl. Yn sefydliadol, bu hyn yn wir - cyrhaeddodd trosiant ei uchafbwynt ar 15 y cant ym mis Tachwedd 2019 ac mae bellach wedi gostwng i 6.5 y cant (Medi 2020). Mae hyn yn darparu trosiant iach sy'n ddymunol ar gyfer sgiliau newydd a chyfleoedd pellach i ail-lunio heb y risg o ansefydlogrwydd a all fod yn nodwedd o drosiant uwch.

**Absenoldeb** - O ystyried yr amgylchiadau presennol, mae'n anoddach asesu effaith y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ar absenoldeb. Mae absenoldeb wedi gostwng o 2.2 y cant ym mis Awst 2019 (cyfartaledd treigl blynyddol o 4.05 y cant) i ddim ond 1.1 y cant ym mis Awst 2020 (cyfartaledd treigl blynyddol o 3.03 y cant). Rydym yn gwybod bod y gostyngiad hwn ar y cyfan yn unol â sectorau eraill a'i fod o ganlyniad i'r pandemig; mae'n wir fod nifer o ymadawyr o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi profi rhai cyfnodau sylweddol o absenoldeb a oedd angen cefnogaeth tymor hwy. Nid oes angen hyn mwyach.

**Cynhwysiant** - Eleni rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol iawn tuag at ein nod o niwtraleiddio'r holl fylchau cyflog - ar draws y rhan fwyaf o grwpiau mae'r bwlch cyflog wedi lleihau, ac nid oes unrhyw grŵp wedi gweld cynnydd yn y bwlch cyflog ac mae'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi cyfrannu at hyn wrth i rai uwch reolwyr ac aelodau staff a fu'n gwasanaethu am gyfnodau hwy ymadael.

**Manteision i Gyfarwyddiaethau**

Er bod y cynllun wedi'i gynllunio i sicrhau manteision i'r gorfforaeth gyfan, mae'r manteision hynny'n amlwg ar y lefel gwasanaeth yn y lle cyntaf ac maent yn dibynnu ar gynllunio effeithiol ar lefel gwasanaeth a chynllunio'r gweithlu'n effeithlon.  Mae'r adolygiad wedi tynnu sylw at y ffaith bod y manteision a geisiwyd i'w gweld ar draws yr holl wasanaethau a ryddhaodd staff trwy'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol - mae **pob** swydd wag sy'n deillio o'r cynllun wedi'i hail-osod, ei hail-lunio neu ei gwella. Er nad oedd arbedion ariannol yn brif ysgogydd, mae'r adolygiad wedi nodi bod y gweithgareddau ar draws gwasanaethau wedi sicrhau arbedion ac wedi osgoi costau ychwanegol o ran mynd i'r afael â phrinder sgiliau.

Mae'r meysydd gwasanaeth a ryddhaodd y nifer fwy o staff wedi gallu sicrhau mwy o fanteision trwy ailstrwythuro gwasanaethau neu dimau, tra bod y rhai â swyddi unigol wedi manteisio ar gyfleoedd i ailgyflenwi swyddi neu newid gofynion sgiliau. Nodir newidiadau manwl fesul Cyfarwyddiaeth yn Atodiad 1.

Arweiniodd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol hefyd at fanteision annisgwyl, fel yn achos nifer fach o staff nad oeddent yn bodloni meini prawf y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ond a ddaeth i'r casgliad serch hynny mai ymddeol oedd y dewis gorau’n bersonol. Fe wnaeth hyn alluogi amryw o wasanaethau i achub ar y cyfle i ailstrwythuro ymhellach ac alinio sgiliau.

Er nad oeddem erioed wedi gallu rhagweld pandemig byd-eang, yn y tymor hwy, mae'r sgiliau a'r strwythurau newydd a gwahanol sydd wedi deillio o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi cefnogi ein gallu i ymateb yn fwy hyblyg.

**Gwersi a ddysgwyd**

Mae'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi cyflawni ei nodau, ac mae ei amseriad wedi galluogi nifer o newidiadau ar draws yr holl wasanaethau ac wedi cefnogi ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau effeithiol, gydag ystwythder. Gwelwyd yr ystwythder hwn yn ein hymateb corfforaethol i'r pandemig presennol. Yn ddiwylliannol dylai hyn gefnogi newidiadau pellach wrth inni ymchwilio i ffyrdd newydd o weithio a pharatoi ar gyfer y Chweched Senedd.

**Atodiad 1 - Newidiadau adrannol yn sgil y Cynllun Ymadael Gwirfoddol**

| **Strwythur Uwch** |
|---|

Rhyddhawyd dwy swydd Cyfarwyddwr trwy'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol ac adroddir arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Cafodd swydd Cyfarwyddwr CAMS ei dileu a'i hail-greu fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Roedd hyn yn cyd-fynd ag adolygiad o'n strategaethau ymgysylltu a chyfathrebu fel rhan o'n proses wella barhaus a rhoddodd gyfle i edrych eto ar sut yr ydym yn ymgysylltu â phobl Cymru. Mae creu'r swydd wedi ailddosbarthu rhai meysydd cyfrifoldeb blaenorol i swyddi cymesur eraill ac wedi galluogi ailstrwythuro pellach o'r gwasanaethau Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a fydd yn cael ei gwblhau yn 2020.

Mae swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol yn dal i gael ei hadolygu hyd nes y bydd anghenion y Chweched Senedd wedi'u penderfynu. Yn y cyfamser, mae trefniant dros dro rhan-amser ar waith.

| **Y Gyfarwyddiaeth Busnes** |
|---|

**Gwasanaeth y Pwyllgorau** - Mae rhyddhau tri aelod o staff o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi caniatáu i Wasanaeth y Pwyllgorau benodi Clercod Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau newydd sydd â sgiliau a phrofiad sy'n fwy perthnasol i natur newidiol ein gwaith. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i weithio mewn amgylchedd cynyddol ddigidol gyda dealltwriaeth o'r cyfryngau cymdeithasol yn dod yn rhan bwysig o lawer o swyddi sy'n cefnogi pwyllgorau. Ar gyfer pob swydd a ryddhawyd, adolygwyd ac addaswyd y tasgau allweddol a'r disgrifiadau swydd i ymateb yn well i ofynion newidiol pwyllgorau yn ogystal â'r gefnogaeth weinyddol ganolog i bwyllgorau. Mae'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol hefyd wedi nodi aelodau o dimau a oedd yn bwriadu ymddeol, ac mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i gynllunio'n ehangach, adleoli rhai staff i wasanaethau eraill â gwahanol anghenion a chreu cynllun olyniaeth yn effeithiol.

**Gwasanaethau Ymchwil** - Rhyddhaodd y Gwasanaeth Ymchwil un swydd, a rhoddodd hyn gyfle i ailasesu'r rôl, y radd a'r sgiliau a'r arbenigedd pwnc sydd eu hangen yn y Tîm hwnnw sy'n gwasanaethu pwyllgorau. Arweiniodd hyn at ailstrwythuro'r tîm a chreu effeithlonrwydd trwy ail-raddio'r swydd o SEO i HEO. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i ddod â sgiliau newydd i mewn ac wedi helpu i greu tîm mwy cytbwys sydd â'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i wynebu heriau'r trefniadau craffu ar ôl Brexit, ac i allu ymateb i newidiadau yn y cyfansoddiad.

**Gwasanaethau Cyfreithiol** - Er nad oedd unrhyw ymgeiswyr yn llwyddiannus yn eu cais i ymadael yn wirfoddol yn y gwasanaethau cyfreithiol (ac eithrio'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol), nododd y cynllun gyfleoedd personol i ymddeol. Mae hyn wedi caniatáu

i'r gwasanaeth fabwysiadu'r strwythur a ddymunir ac wedi darparu'r amser cynllunio sydd ei angen i ailddosbarthu cyfrifoldebau a rhoi cefnogaeth i ddatblygu sgiliau. Ni ail-lenwyd y swydd hon.

| Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau |
| --- |

**Gwasanaethau Ariannol** - Sicrhawyd effeithlonrwydd trwy weithredu'r System Gyllid NAV newydd, a gwneud llawer o dasgau yn awtomataidd. Fe wnaeth y newidiadau hyn, ynghyd â newidiadau yn y strwythur cyllid dros amser, agor posibiliadau newydd. Nodwyd y gellid gwella'r cymysgedd sgiliau o fewn yr adran gyllid a bod gwytnwch ar lefel cyfrifwyr cymwys yn ddigonol ond ei fod wedi dod ar draul cyfleoedd datblygu i staff is. Roedd naid o Gymorth Tîm (myfyrwyr Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu) i staff cymwys ar lefel SEO, gyda chyfle cyfyngedig i ddatblygu a chynllunio olyniaeth neu ddilyniant o fewn y strwythur. Yn dilyn y Cynllun Ymadael Gwirfoddol rhyddhaodd y strwythur newydd swydd uwch, a gafodd ei hailosod i swydd ddatblygiadol iau gyda chymorth astudio (ACCA). Mae hyn wedi dosbarthu sgiliau a gwybodaeth yn well ac mae wedi arwain at fwy o wytnwch i'r gwasanaeth. Recriwtiwyd ar gyfer hon yn fewnol, o fewn y maes gwasanaeth, ac o ganlyniad crëwyd swydd wag ddilynol ar lefel mynediad. Mae'r swydd gradd mynediad hon yn wag ac wedi cael ei rhoi o'r neilltu ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn enghraifft dda o'r manteision niferus a sicrhawyd trwy un ymadawiad wedi'i gynllunio - mae wedi creu strwythur gyda chyfleoedd datblygu ac wedi gwneud arbedion sylweddol (sicrhawyd ad-daliad o fewn ychydig fisoedd) sy'n parhau o fewn y maes gwasanaeth. Bydd arbedion parhaus hefyd wrth i'r swydd EO ddisodli'r swydd SEO yn y blynyddoedd i ddod, yn ychwanegol at y swydd wag bresennol ar lefel Cymorth Tîm. Canlyniad arall na chafodd ei ragweld oedd chwalu seilos yn y tîm.

**Adnoddau Dynol a Chynhwysiant** - Rhyddhawyd tair swydd trwy'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol a alluogodd ailstrwythuro'r gwasanaeth cyfan. O ganlyniad i hyn bu modd dileu un swydd, a chreu swydd newydd â gwahanol setiau sgiliau wedi'u cynllunio i gefnogi ffyrdd o weithio yn y dyfodol, ac mae rhyddhau swydd gradd mynediad wedi'i gynyddu i'r eithaf trwy gyfuno dau dîm i alluogi darpariaeth gwasanaeth well, mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd. Cafodd rôl arall ei rhewi'n fwriadol am 12 mis i ddeall anghenion Swyddfa Rhaglen a Newid y Comisiwn yn y dyfodol. Mae hyn wedi arwain at arbediad ariannol. Ail-luniwyd y swydd wedi hynny ac yn unol â pholisi postio blaenoriaeth y Comisiwn, mae wedi ei llenwi gan aelod o staff y Comisiwn sy'n dychwelyd o secondiad tymor hir. Mae hyn wedi osgoi'r risg o faich ariannol ychwanegol. Mae amryw o swyddi gwag eraill sydd wedi codi yn ystod y cyfnod ailstrwythuro wedi galluogi'r gwasanaeth i recriwtio gwahanol sgiliau sydd wedi cefnogi'r ailstrwythuro ymhellach.

**Rheoli Ystadau a Chyfleusterau** - rhyddhawyd un swydd yn y gwasanaeth. Ni ail-lenwyd y swydd hon.

**Gwasanaethau Diogelwch** - Mae rhyddhau staff o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi galluogi'r gwasanaeth i ddod â phobl newydd i mewn â sgiliau a phrofiad sy'n fwy perthnasol i natur gyfnewidiol ein gwaith. Mae tair swydd a ryddhawyd wedi ailasesu gofynion sgiliau i ymateb i weithio mewn amgylchedd cynyddol ddigidol a thechnegol, cefnogi system teledu cylch cyfyng newydd o'r radd flaenaf, a dulliau newydd o weithio a gyflwynwyd i hwyluso arferion gwaith mwy effeithlon gan gynnwys cyflwyno arfwisg.

**Llywodraethu a Sicrwydd** - Rhyddhawyd un swydd yn y maes hwn ac er bod y tîm yn fach, o ganlyniad i hyn bu modd ailstrwythuro'r gwasanaeth cyfan, gan fodloni holl feini prawf y Cynllun Ymadael Gwirfoddol fel y nodwyd.

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau gynt)**

**Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi** - Mae ymadawiad dau aelod o staff y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi galluogi'r gwasanaeth i wella effeithlonrwydd y gweithlu trwy ymestyn gofynion sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn wedi lleihau dibyniaeth y Gwasanaeth ar drefniadau wedi'u haddasu a meddalwedd anaddas wrth i'r galwadau am Wasanaethau Cyfieithu gynyddu. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth wedi adolygu anghenion y dyfodol ac wedi recriwtio sgiliau sy'n briodol ar gyfer yr anghenion hynny. Mae hyn wedi hwyluso a gwella arferion gwaith, ac wedi darparu gwytnwch mawr ei angen. Mae hyn hefyd wedi arwain at arbediad ariannol tymor byr o ran costau cyflog.

**Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau** - Rhyddhawyd dwy swydd trwy'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, ac roedd hyn yn cyd-fynd â swydd wag arall. Galluogodd hyn y gwasanaeth i ailstrwythuro, gan gyfuno swyddi ar draws dau dîm yn un swydd i sicrhau mwy o effeithlonrwydd a gwell darpariaeth gwasanaeth ar draws y Swyddfa Weithredol a'r Swyddfa Breifat; ac ailddiffinio'r rolau gyda set sgiliau fwy priodol ar gyfer yr hyn sydd ei angen nawr ac yn y dyfodol. Mae'r newid hwn wedi galluogi'r gwasanaeth i fod yn fwy ymatebol i ddewisiadau ac anghenion busnes y Llywydd, heb gostau / swyddi ychwanegol i fynd i'r afael â phrinder sgiliau.

**Cyfathrebu a Gwasanaethau Ymwelwyr a Lleoliadau Seneddol** - Mae tair swydd wedi'u rhyddhau yn y maes hwn. Maent i gyd wedi'u hailstrwythuro, naill ai i greu mwy o gapasiti trwy gefnogi gwahanol ffyrdd o weithio yn swyddfeydd Gogledd Cymru neu maent wedi'u hadolygu ac wedi'u cynnwys yn y broses o ailstrwythuro'r gwasanaethau cyfathrebu sydd ar ddod.

DIWEDD

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon